# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Ffrindiau Bach Tegryn**

**Canolfan Tegryn**
**Aberporth**
**SA43 2EN**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

04/11/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| **Graddau** | **Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br><br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na<br><br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd Ffrindiau Bach Tegryn ei gofrestru ym mis Mehefin 2015 ac mae'n darparu gofal ar gyfer uchafswm o 19 o blant. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru ar gyfer gofal dydd llawn. Fodd bynnag, ar adeg yr ymweliad arolygu, roedd yn cynnig dwy sesiwn bob dydd, dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol ar gyfer plant rhwng dwy a phedair oed. Roedd sesiynau'r bore yn cael eu cynnal rhwng 9yb a 12yh ac roedd sesiynau'r prynhawn yn cael eu cynnal rhwng 12.45 yh a 3.15 yh. Darperir y gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg ac hefyd yn cynnig lleoedd a ariennir ar gyfer plant tair oed, ac felly bydd yn cael ei arolygu gan Estyn. Lleolir y gwasanaeth yng Nghanolfan Tegryn. Heather Davies-Rollinson yw'r Unigolyn Cyfrifol a Wendy Davies yw'r Person â Gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

| Theme | Rating |
|---|---|
| Lles | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynychu Ffrindiau Bach Tegryn yn hapus ac yn frwdfrydig dros eu profiadau dysgu. Maent yn cael gofal gan staff gwybodus a chyson sy'n ymrwymedig i ddiwallu eu hanghenion unigol. Maent yn cael budd o wasanaeth sydd wedi'i gynllunio'n ofalus ac sy'n canolbwyntio'n fawr ar y plentyn. Mae'r plant yn hapus ac yn amlwg yn mwynhau eu hamser yma. Mae'r rhieni'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth ac mae perthnasau da gan yr arweinwyr a'r staff gyda'r rhieni a'r gymuned.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwasanaeth wedi prynu adnoddau ychwanegol er mwyn datblygu'r ardal allanol ymhellach.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi rhoi gwybod i'r personau cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag adolygiad o ansawdd y gofal (rheoliad 16) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad

oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Yn ogystal, gwnaethom argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygiad ac arweinyddiaeth ac mae’r rhain wedi’u cynnwys ar ddiwedd yr adroddiad.

## 1. Lles **Da**

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth. Maent wedi ffurfio cydberthnasau cadarnhaol â'r plant eraill a'r aelodau staff. Mae gan y plant lais cryf ac maent yn dewis sut i dreulio eu hamser ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau diddorol a difyr. Maent yn cyfrannu at y cynllunio. Mae'r plant yn gwneud cynnydd da ac yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y plant lais cryf iawn ac maent yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau deallus. Er enghraifft, amser byrbryd roedd plant yn dewis pa ffrwythau oeddent eisiau eu bwyta ac yn dewis p'un ai oeddynt eisiau yfed dŵr neu laeth. Roedd y plant yn bwyta byrbrydau a'u cinio ar eu cyflymder eu hunain. Mae rhan fwyaf y plant yn mynegi barn yn dda ac yn cyfrannu eu syniadau ar amrywiaeth o faterion wrth iddynt fwydo eu syniadau i'r mapiau meddwl.

Yn ystod amser cylch, mae'r plant yn trafod eu teimladau yn ddeallus ac yn egluro pam maent yn teimlo'n hapus, yn gyffrous neu'n drist. Mae'r rhan fwyaf y plant yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol iawn am eu gweithgareddau, er enghraifft wrth ddewis ffrwythau roedd y plant yn hyderus iawn i ofyn am fwy mewn modd cwrtais. Maent yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal chwarae i'r llall ac yn defnyddio'r ardaloedd parhaus i ddysgu'n annibynnol. Er enghraifft, aeth un plentyn i'r ardal ddarllen ac ymdrochi mewn llyfr gan droi'r tudalennau'n briodol.

Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfn y dydd ac mae nifer yn gallu ateb yn hyderus amser Cylch. Er enghraifft, pan ofynnwyd iddynt pa ddydd oedd hi heddiw, dywedodd un plentyn 'Dydd Iau' yn hollol hyderus heb unrhyw gymorth gan gofio mai Dydd Mercher oedd hi'r diwrnod blaenorol.

Mae'r plant yn hapus ac yn ymdopi'n dda wrth iddynt wahanu oddi wrth eu rhieni. Maent wedi ffurfio ymlyniadau da gyda'r staff a'u cyfoedion. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn dweud plîs a diolch yn reddfol. Roedd plant yn mwynhau eu chwarae ac roedd rhai wedi ymdrochi yn eu chwarae rôl. Er enghraifft, gwnaeth ychydig ohonynt gasglu dolis a thedis a'u cario draw at y llwyfan berfformio gan ddweud eu bod yn mynd ar wyliau.

Er mai lleiafrif bach sy'n dod o gartrefi Cymraeg, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda iawn ar y patrymau iaith sy'n cael eu modelu ac yn sgil hynny yn defnyddio patrymau iaith yn gywir. Er enghraifft, wrth fynd at y bwrdd snac, gofynnodd pob plentyn 'Ga i … os gwelwch yn dda?'. Wrth ddewis cadair, roedd y plant i gyd yn gallu dweud p'un ai mai cadair mawr, canolig neu fach oedd ganddynt.

## 2. Gofal a Datblygiad **Da**

### Crynodeb

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar waith yn effeithiol. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r plant sydd yn eu gofal ac maent yn defnyddio dulliau cadarnhaol i hybu rhyngweithio da. Mae'r staff yn ymwybodol iawn o anghenion unigol y plant ac yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i alluogi'r plant i wneud cynnydd da.

### Ein canfyddiadadagwasanaeth

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch plant. Maent yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac yn mynychu cyrsiau megis cymorth cyntaf a hylendid bwyd yn rheolaidd.

Mae staff yn dilyn prosesau hylendid yn dda ac yn sychu byrddau cyn amser snac. Maent yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn iddynt fwyta ac ar ôl defnyddio'r tŷ bach. Roedd staff yn darparu byrbrydau iach a oedd yn cynnig amrywiaeth eang iawn o ffrwythau gan gynnwys pinafal, banana, afal, oren, grawnwin, plwm a melon.

Mae'r staff yn arsylwi'n fanwl ar blant i sicrhau bod dewisiadau ac anghenion unigol y plant yn cael y sylw pennaf. Maent yn cynllunio'n effeithiol iawn ar sail eu harsylwadau. Er hynny, nid oedd y gwaith papur yn gwbl gyfredol. Roeddynt hefyd yn rhoi llawer o gyfleoedd i'r plant gyfrannu at y gwaith o gynllunio. Maent yn cadw cofnod electronig o sgiliau'r plant ac yn defnyddio hynny fel rhan o'r cynllunio hefyd.

Mae'r person â gofal a'r dirprwy yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr holl staff yn cwrdd ag anghenion y plant unigol ac yn rhoi cynlluniau ar waith i gael cymorth ychwanegol pan fo angen. Fodd bynnag, nid oes cynllun gofal unigol bob amser ar gael ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol.

Mae staff yn bwydo iaith yn hynod o effeithiol ac mae canlyniad hynny i'w weld yn natblygiad ieithyddol y plant. Er enghraifft, amser snac gwnaeth staff dorri'r tost mewn siâp sgwâr a thriongl gan annog plant i ddweud pa siâp oedd ganddynt.

## 3. Yr amgylchedd

**Da**

### Crynodeb

Mae’r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel ac ysgogol lle ceir cyfleoedd ar gyfer chwarae dychmygus. Mae ganddynt fynediad rhydd at amrywiaeth o adnoddau. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'n diwallu anghenion y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae’r amgylchedd yn cynnig amgylchedd pwrpasol a symbylol ar gyfer y plant. Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael ar eu cyfer sy’n cynnig cyfleoedd da i’r plant chwarae a dysgu yn unol â’u cam datblygiad ac o fewn cyrraedd y plant. Mae’n cynnig amrywiaeth eang iawn o adnoddau safonol sy’n addas at oed a cham datblygiad y plant. Mae’r adnoddau o fewn cyrraedd y plant ac mae’r rhan fwyaf wedi’u labelu. Mae amrywiaeth eang o deganau ac Adnoddau ar gyfer hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol gan gynnwys llyfrau a doliau. Mae’r ardaloedd yn cynnig cyfleoedd symbylol i’r plant chwarae a dysgu ac maent yn cynnwys ardal dawel hyfryd, ardal chwarae rôl, darganfod creadigol, byd bach a rhifedd.

Mae’r amgylchedd yn cael ei gynnal a’i gadw yn dda ac yn ddiogel. Ar y cyfan, mae’r person â gofal yn sicrhau bod asesiadau risg priodol yn eu lle. Maent yn defnyddio llyfr i gadw cofnod o bobl sy’n ymweld â’r gwasanaeth. Mae’r drysau allanol a’r ffens yn ddiogel er mwyn sicrhau nad oes pobl yn cael mynediad i’r lleoliad heb ganiatâd. Mae’r person â gofal yn sicrhau bod y staff yn cadw plant yn ddiogel drwy fonitro’r drws electronig yn ofalus. Mae’r staff yn cynnal driliau tân yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y plant a’r staff yn ymwybodol o’r broses. Mae glanhawr yn glanhau’r lleoliad yn ddyddiol ac mae’n lan ac yn drefnus.

Ar ddiwrnod yr arolwg ni wnaeth y plant ddefnyddio’r ardal allanol a hynny am ei fod yn cael ei ddatblygu. Roedd llawer o offer newydd pwrpasol wedi cyrraedd ac roedd y staff yng nghanol rhoi trefn arnynt fel bod modd i’r plant eu defnyddio. Mae’r ardal ei hun yn cynnig cyfleoedd addas i’r plant ddatblygu sgiliau. Er enghraifft, roedd ardal arddio ac roedd yr ardal chwarae rôl yn cynnwys pwmp petrol a chegin fwd. Mae yno ardal ar gyfer chwarae ym mhob tywydd ac mae staff wedi sicrhau bod digon o ddillad tywydd gwlyb ar gael iddynt.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Digonol**

### Crynodeb

Mae'r person â gofal wedi sefydlu partneriaethau cryf gyda rhieni ac asiantaethau allanol. Ar y cyfan, mae’r person a gofal yn rheoli staff yn briodol. Fodd bynnag, mae angen datblygu’r broses rheoli perfformiad a goruchwylio. Mae'r system am adolygu'r ansawdd gofal yn datblygu ond nid yw wedi’i wreiddio. Nid oedd tystiolaeth o adolygiad nac adroddiad diweddar ar gael.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y lleoliad staff hirhoedlog sy’n driw i’r gwasanaeth. Mae trefniadau cadarn yn eu lle i recriwtio staff ac mae ganddynt gymwysterau addas. Roedd yr arweinwyr wedi ysgrifennu datganiad o ddiben a roddodd llun cywir o'r gwasanaeth. Roedd arweinwyr yn defnyddio polisïau sefydliad darparu cydnabyddedig ac roedd y rhain yn addas. Roedd y person â gofal greu ethos cadarnhaol yn y cylch lle'r oedd plant, staff a rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae’r person a gofal yn sicrhau bod digon o staff cymwys yn bresennol ac yn cwrdd â’r cymarebau priodol ar bob adeg.

Mae’r person â gofal yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd lle maent yn trafod y cynllunio a’r gofal. Mae’r person â gofal yn gwerthuso gwaith pob aelod staff bob blwyddyn ac yn trafod eu perfformiad a’u hanghenion o safbwynt datblygiad proffesiynol parhaus. O ganlyniad, mae’r arweinydd yn targedu hyfforddiant sydd o fudd i’r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw’r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi cyfarfodydd goruchwylio staff yn ddigon cadarn. At ei gilydd, mae’r person â gofal yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda’r staff ond nid ydynt bob amser yn cael eu cofnodi. Maent hefyd yn cynnal cyfarfodydd staff. Nid yw’r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y person a gofal yn cael cyfarfodydd goruchwylio a rheoli perfformiad rheolaidd ac nid yw’r gwaith papur yn dangos bod proses gadarn wedi’i mabwysiadu.

Mae’r person â gofal a’r staff yn ystyried sut i wella’r gwasanaeth yn rheolaidd ond nid ydynt wedi cynnal arolwg o ansawdd y gofal nac wedi llunio adroddiad ar sail hynny ers 2017.

Mae’r arweinwyr yn meithrin perthnasau da iawn gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys rhieni, staff Dechrau’n Deg, yr awdurdod lleol, yr ysgol leol a’r gymuned. Maent yn cydweithio’n dda er lles y plant. Maent yn cydweithio’n arbennig o dda gyda rhieni er mwyn ehangu ar y cyfleoedd dysgu y mae’r plant yn eu cael, er enghraifft, maent yn anfon pecynnau adref er mwyn i’r plant gael cyfle i goginio bisgedi gyda’u rhieni.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion canlynol o ran arfer, er mwyn i'r arweinwyr eu hystyried:

- Cynnig hyd yn oed mwy o gyfleoedd i'r plant ymarfer sgiliau annibyniaeth yn ystod amser byrbryd ac amser bwyd;
- sicrhau bod y broses o oruchwylio staff, gan gynnwys y person a gofal, yn cael ei ffurfioli;
- sicrhau bod y gwaith papur sydd ynghlwm wrth y cynllunio yn cael ei ddiweddaru'n amserol a
- sicrhau bod cynllun datblygu unigol ar gael ar gyfer pob plentyn sydd ei angen.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 24 Hydref 2019. Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arfer a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y staff, y person â chyfrifoldeb a’r rhieni;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad a
- rhoi adborth manwl ar yr hyn a nodwyd gennym a'r materion i fynd i'r afael â nhw

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cyfrifol | Heather Elizabeth Davies-Rollinson |
| Person â Gofal | Wendy Davies |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Oriau agor | 9.00yb-12.00yh a 12.45yh-3.15yh<br>Dydd Llun – Dydd Gwener |
| Prif iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Rhagfyr 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn | 24 Hydref 2019 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio |
| Gwybodaeth ychwanegol: | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/02/2020